monmouthshire
sir fynwy

# Bysgio Sir Fynwy – Cod Ymddygiad

Mae Sir Fynwy yn croesawu bysgwyr. Os ydych yn berfformiwr talentog sydd eisiau berfformio yng nghanol un o'n trefi poblogaidd, dilynwch y cod yma os gwelwch yn dda.

Lluniwyd y ddogfen hon mewn partneriaeth sydd yn gweithio gyda busnesau lleol, bysgwyr, Cyngor Sir Fynwy a Heddlu Gwent. Mae canol y dref Y Fenni, Trefynwy, Cas-gwent, Cil y Coed a Brynbuga yn ardaloedd tebygol o gael eu defnyddio ar gyfer bysgio.

Nod y ddogfen hon yw gosod rheolau clir gall bysgwyr dilyn i sicrhau bod bysgio yn gyfreithlon er mwyn gwella diwylliant ein trefi heb gynhyrchu cwynion.

**Bysgio**
Perfformiad i'r cyhoedd sy'n mynd heibio sy'n gallu rhoi arian ar gyfer mwynhau'r perfformiad.
Fel arfer mae bysgio yn berfformiad cerddoriaeth fyw. Ond hefyd mae rhai pobl yn perfformio hud, cerfluniau byw, jyglo a cherfluniau tywod.

**Lle I Fysgio**
Gallwch bysgio'n gyfreithlon heb angen trwydded ar dir cyhoeddus. Os ydych chi'n bwriadu bysgio ar dir preifat, cysylltwch â pherchennog y tir am ganiatâd.
Mae gan Sir Fynwy llawer o ardaloedd yn ganol tref sy'n addas ar gyfer bysgio gyda nifer o siopwyr farchnad / manwerthu a swm iach o dwristiaid sy'n ymweld ag ein trefi bob dydd.
Gwnewch yn siŵr o sefydlu mewn lleoliad synhwyrol lle nad ydych chi a'ch cynulleidfa (os ydych yn ddigon da i ddenu torf) yn rhwystro unrhyw un o'r canlynol:

- Drysau
- Mynedfa Siop
- ATM
- Toiledau
- Beinciau

Pryd yr ydych yn cyrraedd lleoliad addas gwnewch yn siŵr dych chi fethu clywed bysgwyr arall o eich lleoliad, dydyn ni ddim eisiau cystadleuaeth sŵn yn y stryd. Arhoswch i bysgwyr arall i orffen neu symudwch i leoliad addas arall ar y stryd.

Peidiwch bysgio mewn un lleoliad am fwy nag un awr. Os ydych yn bwriadu bysgio am fwy o amser, newidiwch eich lleoliad i ymhellach lan y stryd neu rownd y gornel. Efallai bydd bysgwyr arall yn aros am eich lleoliad, rhannwch os gwelwch yn dda.

Nid ydym yn caniatáu bysgio yn ardal sydd wedi labelu ar y cynllun isod yn Stryd Frogmore.
Ardal llethr o Stryd Frogmore, Y Fenni.




Rydym yn cydnabod y gall dynameg y dref newid yn y dyfodol, gydag ymgynghoriad ac aelodau'r bartneriaeth a nodwyd uchod gallwn ychwanegu, tynnu, neu newid pan mae angen.

**Perfformiad**

Rydym yn gobeithio byddwch yn mwynhau perfformio o fewn Sir Fynwy ond hefyd mae angen i ni sicrhau bod ein cyhoedd a'r gymuned yn mwynhau'r perfformiad, os yr ydych yn creu aflonyddwch i unrhyw un mae'n rhaid bod yn barod i addasu eich perfformiad neu symud os oes angen.
Peidiwch â defnyddio iaith sarhaus os ydych yn canu a pheidiwch berfformio o dan ddylanwad alcohol.
Os mae preswylydd lleol neu weithiwr siop yn cysylltu gyda chi byddwch yn gwrtais a hawdd i fynd ati os gwelwch yn dda. Os ydyn nhw'n rhoi rheswm pam ydych yn achosi aflonyddwch byddwch yn fodlon i wneud newidiadau neu symud i ardal arall.

Sain

Yn aml efo gwynion yn erbyn bysgwyr yr achos mwyaf yw'r lefel o sŵn. Mae'r sŵn yn teithio ar hyd y stryd ac i mewn i ardaloedd preswyl a manwerthu gerllaw. Nad yw pobl y tu mewn yn gallu cerdded i ffwrdd os nad ydynt yn hoffi eich perfformiad felly byddwch yn ystyriol o bobl arall yn yr ardal ac eithrio'r dorf sy'n pasio a welwch os gwelwch yn dda.
Dylai lefel y sŵn y perfformiad cerddorol fod ychydig yn uwch na lefel y sŵn cefndir yn y stryd.
Gwiriwch eich cyfarpar a'ch offerynnau cyn i chi ddechrau, gwnewch yn siŵr nad yw ei hystumio.
Os ydych yn defnyddio cerddoriaeth chwyddo fel traciau cefnogaeth sicrhau hefyd bod y sŵn yn isel.
Amrywiaeth sy'n rhoi blas o fywyd, os ydych yn perfformio cerddoriaeth peidiwch ailadrodd caneuon oherwydd bydd hwn yn achosi annifyrrwch a chwynion.

Offer

Ceisiwch beidio ag achosi unrhyw beryglon yn y stryd.
Peidiwch â pharcio cerbyd wrth eich ymyl.
Peidiwch byth â gadael eich eiddo heb oruchwyliaeth, nid ydym eisiau galwad ynghylch pecyn amheus pryd ydych yn cael egwyl i ginio.
Efallai y bydd gennych offer agored neu het i gasglu unrhyw roddion gan y cyhoedd, peidiwch â defnyddio tuniau i gasglu am elusen heb drwydded i gasglu yn y stryd.
Peidiwch ddefnyddio arwyddion i ofyn am arian, efallai y gwelir hyn fel cardota ac nid bysgio.

Peidiwch guddio eich wyneb a gwnewch yn siŵr mae modd adnabod gyda chi.
Ceisiwch osgoi unrhyw offer gyda chorneli miniog.
Does ddim caniatâd i werthu CD's heb ganiatâd masnachu stryd a gyhoeddwyd gan yr Adran Trwyddedu.
Peidiwch â defnyddio generadur am unrhyw reswm.

**Cwynion yn erbyn Bysgwyr**
Os yw bysgwr yn creu niwsans dilynwch y camau canlynol:

Cam 1

Gwnewch nodyn o'r amser y mae'r bysgwr yn dechrau achosi aflonyddwch/niwsans i chi neu eich staff. Gofynnwch i'r bysgwr yn gwrtais ac esboniwch pam maent yn achosi anghysur, er enghraifft gofynnwch iddynt a gallent droi'r sŵn i lawr neu symud i leoliad arall.

ac

Gofynnwch iddo/iddynt os ydyn yn gwybod am god ymddygiad bysgio Sir Fynwy.

Cam 2

Os bydd y bysgio yn parhau i achosi niwsans cysylltwch â 101 am Heddlu Gwent neu Adrannau Iechyd Amgylcheddol/Trwyddedu Cyngor Sir Fynwy am help.

**Gyfraith a Gorfodi**

Nid yw bysgio yn anghyfreithlon ac nid oes raid i chi ddal trwydded, fodd bynnag, os ydych yn achosi aflonyddwch neu yn torri cyfraith arall bydd swyddogion trwyddedu neu swyddogion yr heddlu yn cymryd camau os oes angen.

Ymddygiad gwrthgymdeithasol

- Os yw eich ymddygiad yn afresymol ac yn cael effaith niweidiol a pharhaus ar ansawdd bywyd y bobl yn yr ardal, byddwch yn derbyn rhybudd llafar.
- Os ydych chi'n parhau, gellid derbyn llythyr rhybudd ffurfiol, gyda hysbysiad amddiffyn cymunedol i ddilyn dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.
- Os ydych yn torri'r hysbysiad, gellid derbyn hysbysiad cosb benodedig (£100) neu gellir ei erlyn yn y llys.

**Niwsans sŵn**
Os wyt ti'n defnyddio helaethiad rhwng 9pm a 8am y bore canlynol, gellir cael eich cyhuddo o dan y Ddeddf Rheoli Llygredd 1974.

Os yw sŵn yn peri effaith niweidiol parhaus ar ansawdd bywyd unigolyn, gallai fod yn niwsans sŵn. Os ydych yn achosi sŵn hwn ac mae swyddogion y Cyngor yn ystyried fod yna niwsans sŵn gellir derbyn Hysbysiad Lleihau Sŵn o dan y Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae torri hysbysiad o'r fath yn dramgwydd ac o bosibl y gallai atafaelu eich offer. Yn yr achosion mwyaf cyffredin o gwynion sŵn yw;
1. sŵn ar lefel afresymol
2. chwarae'r un gerddoriaeth dro ar ôl tro
3. dim yn symud yn aml

**Deddf Trwyddedu 2003**

Mae bysgio fel arfer yn cael ei ystyried yn gyson fel cerddoriaeth achlysurol, er enghraifft, mae perfformiad o'r gerddoriaeth yn atodol i bobl sy'n ymweld â'r dref i siopa. Fodd bynnag, efallai y bydd angen trwydded ar y gweithgaredd os yw'r cyhoedd yn ymweld â'r dref i weld

perfformiad, er enghraifft gyda gŵyl bysgio. Felly bydd pob gweithgaredd yn cael ei drin yn ôl ei deilyngdod ei hun wrth ystyried beth yw gweithgaredd trwyddedadwy neu beidio o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003.

**Rhwystr ar y briffordd**
Os ydych chi neu'ch cynulleidfa mewn ffordd pobl ar lwybr allai fod yn achosi rhwystr ac yn cael eich gofyn i stopio. Os ydych yn parhau gellid cael eich cyhuddo o dan y Deddfau Priffyrdd (1980).

**Bygythiad neu wrthdaro**
Os yw unrhyw un yn torri'r heddwch neu'n fygythiol at bobl eraill bydd yr heddlu yn cymryd camau. Gellid cyhuddo'r person o dan y Ddeddf Trefn Gyhoeddus (1986).

**Masnachu ar y stryd**
Nid yw unrhyw un yn gallu gwerthu eitemau ar y stryd heb gydsyniad masnachu stryd neu eithriad.

**Cardota**
Nid oes caniatâd ac unrhyw un i erfyn am arian, dylai'r gynulleidfa dewis i roi arian neu beidio. Mae cardota yn dramgwydd o dan y Ddeddf Crwydraeth (1824)

**Casgliadau stryd**
Dim ond elusennau cofrestredig gyda thrwydded casglu stryd sy'n gallu defnyddio tuniau casglu elusen a rhedeg casgliadau stryd awdurdodedig.

**Yswiriant**
Yn dibynnu ar natur y perfformiad a'r offer a ddefnyddir, efallai y bydd angen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus arnoch, gofynnwch i gynghorwr yswiriant neu gyfreithiol ar y mater hwn.

**Pwy i gysylltu**

Os hoffech drafod y ddogfen hon neu ddarganfod mwy o wybodaeth, cysylltwch â;

| Cyswllt | Ebost | Rhif ffon |
|---|---|---|
| Adran Trwyddedu,<br>Cyngor Sir Fynwy,<br>Canolfan Addysg Gymunedol Y Fenni,<br>Old Hereford Road,<br>Abergavenny,<br>NP7 6EL | Licensing@monmouthshire.gov.uk | 01873 735420 |
| Adran Twyddedu,<br>Cyngor Sir Fynwy,<br>Monmouthshire County Council,<br>Chepstow Library,<br>Chepstow,<br>NP16 5EN | Licensing@monmouthshire.gov.uk | 01873 735420 |
| Iechyd yr amgylchedd,<br>Cyngor Sir Fynwy,<br>Canolfan Addysg Gymunedol Y Fenni,<br>Old Hereford Road,<br>Y Fenni,<br>NP7 6EL | environmentalhealth@monmouthshire.gov.uk | 01873 735420 |
| Pencadlys Heddlu Gwent,<br>Croesyceiliog,<br>Cwmbran,<br>Torfaen,<br>NP44 2XJ | Abergavenny@gwent.pnn.police.uk | 101 |

monmouthshire
sir fynwy